**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/00159/26

Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

11 Mawrth 2026

Annwyl Pippa a Tracey,

Rwy'n anfon y llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Chwefror 2026. Diolch i chi a'ch timau am ddod i'r cyfarfod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod; mae hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Gallwch weld recordiad o'r cyfarfod yn Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu fy nadansoddiad i o'r sefyllfa ar sail y cyfarfod, y byddwn yn parhau i'w hadolygu mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Ar ddechrau'r cyfarfod, fe wnaethoch roi trosolwg o'r gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud fel sefydliad sydd â chylch gwaith statudol eang a chymhleth, gan ddarparu arweinyddiaeth iechyd y cyhoedd, gwasanaethau clinigol a labordy, diogelu iechyd, rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gweithgarwch gwella iechyd, gwyliadwriaeth poblogaeth, ymchwil a darparu cyngor a thystiolaeth arbenigol i Lywodraeth Cymru. Fe wnaethoch nodi fod cyfran sylweddol o weithlu'r sefydliad yn canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen a chlinigol, gan gynnwys microbioleg a phrofion labordy, diogelu iechyd a gwasanaethau sgrinio, a bod llawer o effaith y sefydliad yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau tymor hwy. Roeddech chi'n glir bod llwyddiant wrth wella canlyniadau iechyd y boblogaeth yn dibynnol ar waith partneriaeth effeithiol ar draws y system iechyd, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

Aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol gyda sefyllfa ariannol gytbwys a chynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ac mae perthynas waith dda rhwng cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, gyda ffocws ar ddiwylliant sefydliadol, arweinyddiaeth, llywodraethu ac ansawdd. Mae eich

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

blaenoriaethau strategol yn cynnwys gwaith i wella materion perfformiad mewn rhaglenni sgrinio, sefydlu rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint, a datblygu system diogelu iechyd ddigidol newydd i Gymru gyda gwell gwyliadwriaeth.

Fel Bwrdd, rydych o'r farn mai Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ganlyniadau llwybrau sgrinio, yn hytrach nag am yr elfennau hynny a ddarperir yn uniongyrchol gan y sefydliad yn unig. Fe wnaethoch chi gydnabod bod rhaglenni sgrinio a brechu yn ymyriadau poblogaeth effaith uchel ond mae heriau sylweddol yn effeithio ar sgrinio'r coluddyn, sgrinio'r fron a sgrinio llygaid diabetig, ac rydych chi'n cydnabod nad yw targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Buom yn trafod y cynllun gwella yn fanwl, a goruchwyliaeth y Bwrdd o'r gwasanaethau a roddwyd ar waith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â phwysau sy'n ymwneud â chapasiti'r gweithlu, offer, gwydnwch unedau symudol, y galw cynyddol a chomisiynu rhannau allweddol o'r llwybr gan fyrddau iechyd. Fe wnaethoch chi rannu bod cyfres o gamau gweithredu ar waith, gan gynnwys drafft o adroddiad adolygu sgrinio'r fron sy'n cael ei ystyried gan y tîm gweithredol, gan weithio gyda byrddau iechyd i godi proffil rhaglenni sgrinio cenedlaethol, i nodi mesurau lliniaru a gwelliannau, ac i atgyfnerthu cyfrifoldeb ar y cyd ar draws y system ehangach.

Mewn perthynas â sgrinio'r coluddyn, fe wnaethoch esbonio bod cynlluniau gwella manwl yn cael eu ceisio gan fyrddau iechyd a bod y cynlluniau hyn yn angenrheidiol i asesu a fydd digon o gapasiti a gweithlu achrededig ar gael i ateb y galw yn y system. Fe wnaethoch chi hefyd ddisgrifio'r gwaith i sefydlu rhwydwaith colonosgopi, canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amserlenni achredu, ac ystyried gweithlu arbenigol ehangach. Er eich bod wedi rhannu'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella gwasanaethau sgrinio, rwy'n pryderu a fydd camau gwella'r Bwrdd y cytunwyd arnynt yn effeithiol o ran gwella perfformiad i'r safonau gofynnol, yn enwedig mewn perthynas â sgrinio'r coluddyn ac oedi ar gyfer colonosgopi, yn ogystal â chapasiti ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech adolygu'r camau hyn a chadarnhau erbyn diwedd mis Mawrth a oes modd gwella'r rhain.

Archwiliodd y cyfarfod anghydraddoldebau mewn sgrinio a manteisio ar frechlynnau. Fe wnaethoch chi ddisgrifio eich gwaith sy'n canolbwyntio ar degwch, gan gynnwys mynd ar drywydd pobl nad ydynt wedi ymateb, cynlluniau peilot wedi'u targedu, gwerthuso ymyriadau a rôl y Rhwydwaith Brechu Teg. Cydnabuwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar frechlynnau o fewn byrddau iechyd ac mae gwaith gwyliadwriaeth pellach ar y gweill i wella cyfraddau ar draws Cymru.

Cynhaliwyd trafodaeth sylweddol a manwl mewn perthynas â phrofion iechyd rhywiol a'r digwyddiad gwasanaeth post. Fe wnaethoch chi gydnabod bod y methiannau yn y gwasanaeth hwn yn annerbyniol a chynnig ymddiheuriad clir am y camgymeriadau a wnaed. Fe wnaethoch chi esbonio, ar ôl i'r mater gael ei nodi, ei fod wedi'i gyfeirio'n brydlon i'r Bwrdd, bod camau cywiro wedi'u cymryd ar unwaith i atal niwed pellach, a bod cefnogaeth nawr ar waith i'r rhai yr effeithir arnynt. Fe wnaethoch bwysleisio eich ymrwymiad i fod yn agored a thryloyw wrth ymateb i'r digwyddiad. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd ddysgu o'r digwyddiad hwn a chryfhau llywodraethiant clinigol gan gynnwys trefniadau diogelu a sicrhau ansawdd ac ymgymryd ag ymateb cyflym ac effeithiol i'r prawf ac ar ôl y digwyddiad, gan gynnwys adolygu a sicrhau

bod y system bellach yn addas i'r diben ac nad oes unrhyw broblemau mewn systemau eraill.

Tynnodd y drafodaeth sylw hefyd at bryderon ynghylch a oedd gan y Bwrdd, cyn y digwyddiad, ddigon o wybodaeth, goruchwyliaeth a sicrwydd i'w alluogi i werthuso a oedd y gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Fe wnaethoch chi dderbyn bod bylchau yn y data a'r sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd a bod hyn yn cyfyngu ar ei allu i nodi'r mater yn gynharach. Fe wnaethoch chi gydnabod bod hyn wedi ysgogi myfyrio ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, trefniadau sicrwydd a thriongli presennol, a bod angen cryfhau ymhellach. Mynegwyd pryder pellach am gyflymder a brys yr ymateb a sicrwydd ar draws gwasanaethau eraill sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd, fel sgrinio. Esboniwyd bod adolygiad cyflym o'r gwasanaeth profi iechyd rhywiol o'r dechrau i'r diwedd ar y gweill, ochr yn ochr â nifer fach o wasanaethau eraill i sicrhau bod rheolaethau, mesurau diogelu a threfniadau llywodraethu priodol ar waith.

Fe wnaethoch chi ddisgrifio eich fframwaith llywodraethu clinigol ehangach, trefniadau goruchwylio ansawdd, prosesau archwilio, mecanweithiau diogel o fewn rhaglenni sgrinio, ac achrediad ISO o fewn gwasanaethau labordy. Dangoswyd gwaith i gryfhau diwylliant sefydliadol hefyd fel rhan o hyn, gan gynnwys codi llais yn ddiogel, datblygu arweinyddiaeth a gallu gwella ansawdd. Fodd bynnag, fe wnaethoch gydnabod bod elfennau o'r gwaith hwn yn dal i ddatblygu neu'n cael eu gweithredu a bod angen cynnydd pellach i weithredu'r fframwaith llywodraethu clinigol a sicrhau nodi, uwchgyfeirio a lliniaru risg yn amserol yn y dyfodol.

Mewn perthynas â diogelu iechyd, fe wnaethoch chi ddisgrifio graddfa a phwysigrwydd eich swyddogaethau gwyliadwriaeth, labordy, ymateb i achosion a chynghori, gan gynnwys nifer yr hysbysiadau a reolir a'r rôl y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chwarae wrth amddiffyn y cyhoedd. Fe wnaethoch chi amlinellu'r gwaith i foderneiddio gwyliadwriaeth, cryfhau gallu digidol a genomig, a gwella parodrwydd ar gyfer bygythiadau yn y dyfodol. Fe wnaethoch fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o bandemig COVID-19, gan gynnwys gwelliannau mewn gorchymyn a rheolaeth, cyfathrebu, gweithio mewn partneriaeth, seilwaith data a digidol, cymorth a gallu'r gweithlu. Fe wnaethoch chi gydnabod bod dysgu'n digwydd yn gyson a bod angen gwneud gwaith pellach, yn enwedig mewn perthynas â phrosesau'r gweithlu, eglurder rôl, diagnosteg a gallu data. Mae angen eglurder pellach ar eich parodrwydd ar gyfer argyfyngau/pandemigau yn y dyfodol, gan gynnwys llwybrau profi a gweithio gyda gwledydd eraill y DU ar allu sefydlog cyffredin.

Roedd y drafodaeth ar wella iechyd ac iechyd y boblogaeth yn canolbwyntio ar ehangder eich gweithgarwch a'r her o drosi tystiolaeth yn gamau gweithredu. Fe wnaethoch chi ddisgrifio eich gwaith ar benderfynyddion ehangach iechyd, atal ar draws y system iechyd a gofal, a chyflwyno neu gomisiynu rhaglenni cenedlaethol, ochr yn ochr â gwaith mewn partneriaeth â byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chyrff cenedlaethol. Pwysleisiodd y cyfarfod yr angen i symud y tu hwnt i gyngor a dadansoddiad i effaith, newid system amlwg a gwell canlyniadau iechyd gan weithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a phartneriaid eraill.

Fe wnaethoch chi amlinellu eich dull o reoli risg, diwylliant, strategaeth pobl, archwilio, rheolaeth ariannol a chynllunio. Disgrifiodd cyfarwyddwyr anweithredol sut mae'r Bwrdd yn ceisio cydbwyso sicrwydd â cheisio problemau gweithredol, gan gynnwys cyflymder heriol, arloesi, penderfyniadau caffael, seiberddiogelwch a gweithio mewn partneriaeth. Fe wnaethoch chi fyfyrio ar sut mae digwyddiadau diweddar wedi atgyfnerthu pwysigrwydd brys, craffu deallus, a'r angen i'r Bwrdd brofi yn barhaus a oes ganddo'r wybodaeth gywir i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Yn ystod y cyfarfod gofynnodd Llywodraeth Cymru am sicrwydd ac eglurder ar gynlluniau gwella ar gyfer llwybrau sgrinio, yn enwedig sgrinio'r coluddyn a'r fron; gwybodaeth ddilynol am drefniadau sy'n sicr o weithio a sut maent yn cael eu monitro; diweddariadau ar ganlyniadau adolygiadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth profi iechyd rhywiol a gwaith sicrwydd cysylltiedig; ac ymgysylltu parhaus ar sut y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cryfhau triongli data, cyflymder ymateb a dangos effaith system gyfan.

Wrth grynhoi'r cyfarfod, gwnes dri sylw. Yn gyntaf, pwysigrwydd cyflymder a brys, yn enwedig mewn perthynas â sicrwydd y Bwrdd sy'n gysylltiedig â meysydd fel llywodraethiant a sicrwydd gwasanaethau, yr angen i sicrhau bod risgiau i'r cyhoedd yn cael eu nodi a'u hystyried yn gyflym. Yn ail, yr angen am ymateb ac ystwythder parhaus wrth ymateb i flaenoriaethau gweinidogol a'r cyd-destun newidiol rydych chi'n gweithredu oddi mewn iddo. Yn drydydd, pwysigrwydd dyfnhau gweithio ar draws y system gyda ffocws cryf ar weithredu a chyflawni, yn enwedig mewn partneriaeth â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

Hoffwn ddiolch i chi am fod mor agored a gonest yn y drafodaeth. Mae'n amlwg bod yna feysydd lle mae angen gwella a lle bydd angen dangos cynnydd.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care